Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol

Cynllun strategol 2020-25: blwyddyn pedwar

General Pharmaceutical Council

Cyngor Fferyllol Cyffredinol

Cynllun strategol 2020-25: blwyddyn pedwar

Cynllun strategol a gyflwynwyd i'r Senedd a Senedd Yr Alban yn sgil Paragraff 8 o atodlen 1 i Orchymyn Fferylliaeth 2010

Trwyddedwyd y ddogfen hon o dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio pan ddywedir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3**.

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y caiff ei hatgynhyrchu'n fanwl-gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ar y deunydd hwn a rhaid rhoi teitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd trydydd parti, mae'n rhaid ichi gael caniatâd gan ddeiliad yr hawlfraint.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ddogfen hon dylech e-bostio **communications@pharmacyregulation.org** neu ffonio ein canolfan cyswllt cwsmeriaid ar **020 3713 8000**.

Gallwch hefyd ddarllen y ddogfen hon ar ein gwefan yn **www.pharmacyregulation.org** a'i lawr lwytho o **www.gov.uk/official-documents**

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2022

Rhagair

Ebrill 2023

Bu'r ychydig flynyddoedd diwethaf yn heriol i bawb yn gweithio mewn fferylliaeth, ac yn iechyd a gofal cymdeithasol. Wynebodd fferyllfeydd ofynion a phwysau trwm a chyson yn ystod gaeaf prysur arall. Roedd ein cyd gyhoeddiad gyda Chymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon a'r Prif Swyddogion Fferyllol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr yn cydnabod rôl hollbwysig gweithwyr proffesiynol a thimau fferyllol yn cefnogi'r GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol ar hyn o bryd. Gwyddom y gwnaeth eu cyfraniad wahaniaeth pwysig i'r cymunedau a wasanaethant.

Buom yn adolygu ein prosesau rheoleiddiol i sicrhau ein bod yn cefnogi fferyllfeydd yn y cyfnod heriol hwn i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Wrth ymateb i bwysau parhaus y gaeaf, gwnaethom ehangu cyfnod amser ein sampl o archwiliadau arferol er mwyn eu cynnal dros gyfnod hirach a gwnaethom addasiadau er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd i fferyllfeydd i ymateb i'n hadroddiadau arolygu.

Cryfhau llywodraethiant fferylliaeth

Eleni, cyflwynwyd gorchmynion deddfwriaethol newydd fydd yn rhoi grymoedd inni osod safonau proffesiynol ar gyfer Fferyllwyr Cyfrifol, Fferyllol Arolygol a Phrif Fferyllwyr. Daeth Gorchymyn Fferylliaeth (Camgymeriadau Paratoi a Chyflenwi – Gwasanaethau Ysbytai a Gwasanaethau Fferyllol Eraill) 2022 a Gorchymyn Fferylliaeth (Fferyllwyr Cyfrifol, Fferyllol Arolygol ac ati) 2022 ar waith ym mis Rhagfyr 2022.

Bydd y gorchmynion hyn yn ein galluogi i gymryd camau pwysig i gryfhau llywodaethiant fferyllfeydd. Rydym wedi cychwyn erbyn hyn ar raglen o ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd, gweithwyr iechyd proffesiynol, y GIG a'r sector iechyd yn ehangach, i drafod y gofynion a'r disgwyliadau ynghylch y rolau hyn. Yn dilyn y cylch hwn o ymgysylltu, byddwn yn llunio rheolau a safonau proffesiynol ar gyfer y rolau hyn ac yn mynd ymlaen i gynnal ymgynghoriadau cyhoeddus llawn.

Cyflawni ein nodau strategol

Wedi cyhoeddi ein strategaeth a chynllun gweithredu, *Cyflawni cydraddoldeb, gwella amrywiaeth a meithrin cynhwysiant: ein strategaeth ar gyfer newid*, buom wrthi eleni yn datblygu, ymgynghori ynghylch ac erbyn hyn rydym wedi cyhoeddi canllawiau cydraddoldeb newydd ar gyfer fferyllfeydd.

Bydd y canllawiau cydraddoldeb yn cefnogi perchnogion fferyllfeydd i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol a rheoleiddiol o ran cydraddoldeb, gan gynnwys gwneud yn siwr na wahaniaethir yn anghyfreithlon yn erbyn neb, gan gynnwys staff a chleifion. Bydd y canllawiau hyn yn rhoi'r wybodaeth a'r hyder i dimau fferyllfeydd i helpu mynd i'r afael â gwahaniaethu, yn ogystal â darparu cyngor ymarferol y gellir ei ddefnyddio mewn gwaith bob dydd.

Edrych ymlaen

Wrth inni gychwyn ar bedwaredd flwyddyn y cynllun strategol pum mlynedd hwn, gwyddom y bydd y sector yn parhau i esblygu gyda'r heriau a'r newidiadau sydd o'n blaenau. Mae hyn yn cynnwys:

- twf fferyllfeydd a gwasanaethau ar-lein, a sicrhau y gall pobl gael gafael ar feddyginiaeth yn ddiogel ar-lein
- gweithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd yn chwarae llawer mwy o rôl yn darparu gofal clinigol ac yn darparu ystod ehangach o wasanaethau clinigol, gan gynnwys rhagnodi annibynnol
- effeithiau technolegau newydd a datblygiadau gwyddonol ar feddyginiaethau a gofal clinigol
- disgwyliadau uchel cleifion a'r cyhoedd o ran esblygu gofal sy'n 'rhoi'r person yn gyntaf

Rydym hefyd yn disgwyl gweld mwy o integreiddio ar iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n debygol o olygu y bydd fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn gweithio mewn amrywiaeth ehangach o leoliadau fel rhan o dimau clinigol aml-broffesiynol.

Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu ymhellach a gweithredu ein ffyrdd newydd o weithio, ac i roi ar waith well strwythurau, systemau a phrosesau. Bydd hyn yn ein helpu i weithio'n hyblyg a chyflawni ein nodau yn llwyddiannus.

Gisela Abbam
Cadeirydd

Duncan Rudkin
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Beth rydym yn ei wneud

Mae gennym ran bwysig i'w chwarae i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio gwasanaethau fferyllol, a'u bod yn ymddiried mewn fferylliaeth.

Rydym yn:

- hyrwyddo proffesiynoldeb mewn fferylliaeth
- helpu sicrhau bod gan weithwyr fferyllol proffesiynol y wybodaeth, agweddau ac ymddygiadau priodol
- sicrhau ansawdd fferylliaeth, gan gynnwys ei diogelwch
- cefnogi'r gwaith o wella fferylliaeth
- Gwnawn hyn mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Maent yn cynnwys:
- cofrestru a rhestru'n gyhoeddus y gweithwyr fferyllol proffesiynol a'r fferyllfeydd sy'n darparu gofal i gleifion a'r cyhoedd
- pennu a hyrwyddo'r safonau sydd eu hangen i fynd ar ein cofrestr ac aros arni
- derbyn sicrwydd, mewn nifer o ffyrdd gwahanol, fod gweithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd yn parhau i gynnal ein safonau – a chymryd camau priodol pan nad ydynt
- rhannu gydag eraill yr hyn a ddysgwn trwy ein gwaith
- ymchwilio pryderon am y bobl neu'r fferyllfeydd a gofrestrwn a chymryd camau cymesur i ddiogelu'r cyhoedd a hyrwyddo ein safonau

Ein cynllun strategol

Mae ein cynllun strategol ar gyfer 2020-25 yn fan cychwyn ein taith tuag at gyflawni ein Gweledigaeth 2030 uchelgeisiol, ar gyfer 'gofal fferyllol diogel ac effeithiol yn ganolog i gymunedau iachach'.

Er mwyn cymryd camau breision tuag at gyflawni ein gweledigaeth dros y pum mlynedd hyd at 2025, byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni'r pum nod strategol a nodir isod. Y nodau yw:

1. Darparu fframwaith safonau addasadwy sy'n diwallu anghenion cyhoeddus a phroffesiynol sy'n newid yn gyflym.
2. Darparu rheoleiddio effeithiol, teg a chyson.
3. Symbylu gwelliannau mewn gofal fferyllol trwy foderneiddio'r ffordd y rheoleiddiwn addysg a hyfforddiant.
4. Symud y pwyslais tuag at ddulliau mwy rhagweliadol, cymesur ac wedi'u teilwra o reoleiddio fferylliaeth.
5. Gwella ein gallu a'n seilwaith i helpu cyflawni ein gweledigaeth.

Cefnogir pob nod gan naratif byr at ddibenion esboniadol, y rhaglenni gwaith allweddol y byddwn yn canolbwyntio arnynt, ynghyd â rhai enghreifftiau lefel uchel o lwyddiant.

Ein nodau strategol

1. Darparu fframwaith safonau addasadwy sy'n diwallu anghenion cyhoeddus a phroffesiynol sy'n newid yn gyflym

Bydd cael fframwaith safonau cyfredol a pherthnasol a chanllawiau ategol – ar gyfer gweithwyr proffesiynol a fferyllfeydd – yn ein galluogi i reoleiddio'n hyblyg, yn gymesur ac yn effeithiol. Bydd y safonau a'r canllawiau yn helpu gweithwyr proffesiynol i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau clinigol, gan weithio mewn lleoliadau amrywiol ac o fewn modelau gwahanol o ddarparu gwasanaethau. Bydd y modelau gwasanaethau hyn yn ymgorffori defnydd cynyddol o uwch dechnoleg.

Er mwyn cyflawni'r nod hwn dros y ddwy flynedd sy'n weddill o'n cynllun strategol, bydd ein rhaglenni gwaith allweddol yn canolbwyntio ar:

1. Ddatblygu safonau rheoleiddiol newydd ar gyfer rolau diweddaredig mewn deddfwriaeth meddyginiaethau.
2. Gofalu fod ein safonau craidd a'r canllawiau ategol yn cyflawni anghenion newidiol y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol.
3. Adolygu beth rydym yn ei gofrestru, sail y cofrestru a'r wybodaeth a gasglwn ac a ddefnyddiwn wrth gofrestru ac adnewyddu.

Byddwn yn gwybod os ydym yn llwyddo os:

- cafodd llywodraethiant fferylliaeth ei gryfhau trwy reolau a safonau ar gyfer prif fferyllwyr, fferyllwyr arolygol a fferyllwyr cyfrifol
- yw ein fframwaith safonau rheoleiddiol yn adlewyrchu'r prif faterion sydd eu hangen ar gyfer arfer fferylliaeth yn ddiogel ac effeithiol
- yw'r safonau a ddisgwylir yn cael eu deall gan gleifion a'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a pherchnogion fferyllfeydd
- yw cyfrifoldebau ac atebolrwyddau proffesiynol yn glir a bod tystiolaeth ohonynt trwy adborth a thrwy arolygiadau, a'r pryderon a leisir

2. Darparu rheoleiddio effeithiol, teg a chyson

Fel rheoleiddydd o ansawdd da, bydd ein holl wasanaethau yn perfformio'n gyson dda. Byddwn yn deall pa wahaniaethau mae ein trefniadau a gweithgareddau rheoleiddiol yn eu gwneud i ddiogelwch cleifion a gwelliannau parhaus yn ansawdd arfer fferyllol ymhob lleoliad. Byddwn yn gofalu hefyd fod y ffordd y rheoleiddiwn yn seiliedig ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac ar ddealltwriaeth dda o systemau a diwylliannau gweithwyr proffesiynol a'r cymunedau a wasanaethant. Mae hyn yn cynnwys bod yn fwy rhagweithiol a defnyddio pob un o'n hofferynnau rheoleiddio a'n dylanwad i helpu mynd i'r afael â gwahaniaethu a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae hefyd yn ceisio arfogi timau fferyllfeydd i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldebau iechyd, gan ddefnyddio ein safonau a chanllawiau i'w helpu i wneud hynny.

Er mwyn cyflawni'r nod hwn dros y ddwy flynedd sy'n weddill o'n cynllun strategol, bydd ein rhaglenni gwaith allweddol yn canolbwyntio ar:

1. Gyflawni holl safonau rheoleiddio da.
2. Adrodd yn fras ar ein perfformiad o ran rheoleiddio a gwasanaethau.
3. Rheoleiddio'n deg a gweithredu yn erbyn gwahaniaethu.

Byddwn yn gwybod os ydym yn llwyddo os:

- ydym yn bodloni pob un o'r 18 safon rheoleiddio da a bennwyd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol
- ydym yn adrodd ar gynhyrchiant, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein gwasanaethau a'n perfformiad sefydliadol
- ydym yn deall effaith ein trefniadau rheoleiddiol ac yn defnyddio hynny i wella ansawdd arfer fferyllol
- ydym yn gallu mesur yn effeithiol ddiogelwch ac effeithiolrwydd yr ystod eang o ofal fferyllol
- ydym yn defnyddio ein holl offerynnau rheoleiddiol a'n dylanwad i gefnogi – a lle y bo angen – tanio newid cadarnhaol mewn fferylliaeth, gan fynd i'r afael â gwahaniaethu a gofalu y gall pawb dderbyn gofal sy'n rhoi'r person yn gyntaf, a meithrin deilliannau iechyd cyfartal

3. Symbylu gwelliannau mewn gofal fferyllol trwy foderneiddio'r ffordd y rheoleiddiwn addysg a hyfforddiant

Ein bwriad yw sicrhau bod pob agwedd ar sut y rheoleiddiwn addysg a hyfforddiant gweithwyr fferyllol proffesiynol, a'u dysgu a'u datblygiad parhaus, yn gyfredol a'u bod yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Trwy hyn byddwn yn fwy abl i gefnogi'r gwaith o lunio a llywio gweithwyr proffesiynol hyderus ac abl all ddiwallu anghenion cleifion ar hyn o bryd ac i'r dyfodol.

Er mwyn cyflawni'r nod hwn dros y ddwy flynedd sy'n weddill o'n cynllun strategol, bydd ein rhaglenni gwaith allweddol yn canolbwyntio ar:

1. Loywi safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol.
2. Datblygu ein rôl yn sicrhau ansawdd ac arfer ôl-gofrestru gweithwyr fferyllol proffesiynol.
3. Gweithredu trefn wedi'i theilwra yn seiliedig ar wybodaeth ar gyfer achredu a sicrhau ansawdd darparwyr addysg a hyfforddiant cychwynnol.
4. Diweddaru'r dull o gyflawni, cynnwys ac amseriad yr asesiad cofrestru ar gyfer fferyllwyr.
5. Galluogi cofrestriad effeithlon ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol tramor yng nghyd-destun Brexit.

Byddwn yn gwybod os ydym yn llwyddo os:

- yw cyflogwyr yn dweud wrthym fod gan weithwyr fferyllol proffesiynol newydd gymhwyso y sgiliau sydd eu hangen
- oes trefn sicrhau ansawdd effeithiol ar arfer ôl-gofrestru
- yw darparwyr addysg yn cyflawni ein safonau diwygiedig, a bod gan fferyllwyr y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ragnodi'n annibynnol adeg cofrestru
- yw ein hasesiad cofrestru yn cael ei gyflawni ar-lein mewn rhwydwaith o ganolfannau profi ledled gwledydd Prydain a'i fod yn profi gwybodaeth a sgiliau angenrheidiol fferyllydd 'diwrnod cyntaf'
- oes asesiad teg a chymesur ar gyfer pob dinesydd tramor sy'n adlewyrchu'r newidiadau a grëwyd gan Brexit

4. Symud y pwyslais tuag at ddulliau mwy rhagweliadol, cymesur ac wedi'u teilwra o reoleiddio fferylliaeth

Byddwn yn canolbwyntio mwy a mwy o'n hymdrechion rheoleiddiol ar baratoi ar gyfer materion cyn iddyn nhw ddigwydd neu ddod yn fater mwy. Byddwn yn defnyddio data, gwybodaeth arbenigol a mewnweliadau i'n helpu i wneud hynny. Byddwn yn eu defnyddio hefyd i arwain ein penderfyniadau fel ein bod yn teilwra ein hymatebion rheoleiddiol fwy a mwy er mwyn cael yr effaith fwyaf. O'r herwydd, bydd ein hymatebion yn seiliedig fwy ar y cyd-destun a'r materion rydym yn delio â nhw, yn hytrach nac ar y ffordd y cawn ni ein strwythuro. Bydd y dynesiad hwn hefyd yn cynnwys ymgysylltu a gweithio ag eraill a chyfathrebu'n fwy uniongyrchol gyda'r cyhoedd yn ogystal â gyda fferylliaeth.

Er mwyn cyflawni'r nod hwn dros y ddwy flynedd sy'n weddill o'n cynllun strategol, bydd ein rhaglenni gwaith allweddol yn canolbwyntio ar:

1. Gweithredu trefn reoleiddio sy'n dibynnu fwyfwy ar wybodaeth arbenigol.
2. Cyflawni'r cynllun gweithredu ar gyfer ein strategaeth ar reoli pryderon am weithwyr fferyllol proffesiynol.
3. Dechrau ystyried sut allai ffordd fwy strategol o reoleiddio fferylliaeth edrych.
4. Adeiladu barn cleifion a'r cyhoedd i mewn i'n gwaith a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r safonau y dylent eu disgwyl gan fferylliaeth.

Byddwn yn gwybod os ydym yn llwyddo os:

- ydym yn adnabod materion sy'n berthnasol ar draws fferylliaeth, ac yn gweithredu arnynt
- wnawn setiau data rheoleiddiol allweddol ar gael i'r sector fferylliaeth ar ein gwefan
- yw ein hymatebion rheoleiddiol yn cael eu teilwra a'u cydlynu'n gynyddol yn ôl y materion a'r cyd-destun perthnasol
- yw ein dull o reoli pryderon am weithwyr fferyllol proffesiynol yn deg, cynhwysol ac yn rhydd o wahaniaethu a rhagfarn a'i fod yn annog agwedd agored, dysgu a gwella mewn fferylliaeth
- ydym mewn gwell sefyllfa i ddechrau datblygu ffordd fwy strategol o reoleiddio ansawdd fferyllfeydd cofrestredig
- ydym yn gweithio mewn partneriaeth â chleifion a'r cyhoedd i gyd-gynhyrchu ein safonau, canllawiau a pholisïau, a'n bod yn rhoi gwybod i gleifion a'r cyhoedd am y safonau y gallant eu disgwyl wrth ddefnyddio gwasanaethau fferyllol

5. Gwella ein gallu a'n seilwaith i gyflawni ein gweledigaeth

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth yn llwyddiannus a rheoleiddio'n effeithlon, mae'n bwysig y gosodwyd y seiliau cywir. Mae hyn yn cynnwys cael y bobl iawn a'r diwylliant iawn a'r ffyrdd iawn o weithio. Er mwyn llwyddo cawn ein cefnogi gan y dechnoleg iawn a byddwn mewn sefyllfa ariannol sefydlog a chynaliadwy.

Er mwyn cyflawni'r nod hwn dros y ddwy flynedd sy'n weddill o'n cynllun strategol, bydd ein rhaglenni gwaith allweddol yn canolbwyntio ar:

1. Wella profiad cwsmeriaid o'n gwasanaethau.
2. Sicrhau ein bod wedi cael ein trefnu i lwyddo.
3. Gwella ein seilwaith TG i'n cefnogi i gyflawni ein gweledigaeth.
4. Sefydlu sefyllfa ariannol gynaliadwy a theg.

Byddwn yn gwybod os ydym yn llwyddo os:

- yw ein holl wasanaethau ar gyfer fferyllydd-gofrestredigion a thechnegwyr fferyllol-gofrestredigion ar gael ar-lein, a'n bod yn gyson yn cyrraedd safonau gwasanaeth cwsmer
- yw'r sefydliad yn cael ei arwain yn effeithiol, a bod gennym well strwythurau, systemau a phrosesau sy'n ein galluogi i newid gyda'r amser a chynnig gwerth am arian
- ydym yn gweithredu'n fwy hyblyg ac o bencadlys llai gydag ôl-troed carbon llai yn unol â'n strategaeth newid hinsawdd ehangach tuag at sero net
- oes gennym y galluedd, sgiliau a gwybodaeth i weithio mewn partneriaeth a chydweithio gyda'r cyhoedd, proffesiynau fferyllol a budd-ddeiliaid eraill i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion
- ydym mewn sefyllfa ariannol sefydlog a chynaliadwy, a'n bod yn cael ein hariannu'n briodol a theg gan y sawl yr ydym yn eu rheoleiddio

O gofio fod newid yn digwydd mor gyflym, a goblygiadau system iechyd a gofal cymdeithasol gan gynnwys fferylliaeth dan bwysau, byddwn yn cadw golwg reolaidd ar y cynllun a'n nodau. Bydd hynny'n sicrhau y gallwn addasu'n gyflym i unrhyw newidiadau all godi o ran blaenoriaethau.

Ein dynesiad strategol

Mae'r nodau strategol rydym wedi'u gosod inni'n hunain a lefel yr uchelgais rydym wedi ymrwymo iddi yn golygu y bydd angen inni addasu'n gyflym i'r amgylchedd o'n cwmpas sy'n newid yn gyflym. Mae angen inni wneud mwy o ddefnydd o wybodaeth arbenigol a bod yn fwy rhagweliadol yn y ffordd y rheoleiddiwn, i sicrhau ein bod yn gymesur ac effeithiol.

Wrth wneud hynny, mae'n bwysig ein bod yn cadw ein prif egwyddorion gweithredol ynghanol y ffordd y gweithiwn, sef:

Hyrwyddo proffesiynoldeb

Credwn fod gwybodaeth, agweddau ac ymddygiadau proffesiynol y bobl sy'n gweithio mewn fferylliaeth yn cynnig y sicrwydd gorau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol. Ein rôl fwyaf effeithiol yw helpu meithrin amgylchedd y gall proffesiynoldeb ffynnu ynddo, a gofalu fod y safonau a ddisgwylir gan fferylliaeth yn adlewyrchu hynny.

Rhoi'r person yn gyntaf

Calon popeth a wnawn yw'r gydnabyddiaeth fod pawb yn unigolyn a bod ganddynt anghenion gwahanol y mae'n rhaid inni eu deall a rhoi ystyriaeth iddynt yn ein gwaith. Mae hyn yn wir i bawb – gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, pobl sy'n gweithio mewn fferylliaeth, pobl sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal ehangach a phobl yn ein sefydliad ein hunain.

Canolbwyntio ar ddeilliannau

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y deilliannau rydym am eu cyflawni ar ran y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol. Bydd hyn yn golygu y gallwn roi i bobl sy'n gweithio mewn fferylliaeth yr hyblygrwydd i arloesi ac addasu mewn ffordd sy'n gwella ansawdd.

Hyrwyddo dysgu a gwella

Byddwn yn gweithio i wella ansawdd fferylliaeth yn barhaus. Byddwn yn casglu gwybodaeth o'n gwaith, a gwaith eraill, fel y gallwn rannu dysgu a hyrwyddo gwelliannau. A byddwn yn gofalu hefyd ein bod yn gwella ein hunain ac yn gweithio yn y ffyrdd mwyaf effeithlon ac effeithiol.

Cydweithio

Rydym yn un rhan o system ehangach sy'n gofalu fod pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol gan fferylliaeth ac sy'n gofalu fod ymddiriedaeth y cyhoedd mewn fferylliaeth yn cael ei chynnal. Os ydym yn mynd i lwyddo, mae'n rhaid inni weithio gyda'r bobl sy'n defnyddio fferylliaeth, arweinyddion fferylliaeth, rheoleiddwyr eraill a'r sector iechyd a gofal ehangach.

Cydnabod cyfraniad y tîm fferyllol cyfan

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan mae sgiliau, gwybodaeth a chyfraniadau pawb yn y tîm fferyllol yn cael eu defnyddio fwyaf effeithiol. Byddwn yn gweithio mewn ffordd sy'n cydnabod rôl y tîm fferyllol cyfan mewn ansawdd a gwelliant.

Y strategaeth hon yw ein hymrwymiad i weithio gyda'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, pobl sy'n gweithio mewn fferylliaeth ac eraill i wella iechyd, diogelwch a llesiant pobl ym Mhrydain Fawr.

Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, London E14 5LQ
P **020 3713 8000**
E **info@pharmacyregulation.org**

@TheGPhC
TheGPhC
/company/general-pharmaceutical-council
www.pharmacyregulation.org